

Elsteddfod Genedlaethol

Frenhinol Cymru


YNG

NGHORWEN,

Flwyddyn Heddwch, Awst, 1919.

Torrwyd y Beithynen, hon, a'r Farddoniaeth ar "Heddwch" (Dyfed) mewn llythrennau Celtaidd, yn Niwyllfa Wledig Dyffryn Clwyd (cydnabyddedig fel canolfan hyfforddiadol i filwyr a morwyr ysig), i'w chyflwyno i'r Prif Weinidog, Mr. Lloyd George.

Y "Beithynen" oedd dyfais y Beirdd pan waherddid iddynt gario na memrwn nac unrhyw ddefnyddiau ysgrifennu arall, rhag ofn iddynt gynhyrfu pobl Cymru i wrthryfela yn erbyn Lloegr.



THE Royal National Eisteddfod

CORWEN,

In the Year of Peace, 1919.

This Peithynen with the Poem "Peace" (by Dyfed) cut in Bardic letters, was made at the Vale of Clwyd Rural Industries (sanctioned as a training centre for disabled soldiers and sailors) for the Prime Minister, Mr. Lloyd George.

The "Peithynen" was the ingenious device of the Bards at a time when they were forbidden to carry parchment or other writing materials lest they should incite the Welsh people to revolt against England.

Blwyddyn fawr y Beibl

BYDD y flwyddyn nesaf yn flwyddyn arbennig iawn yng Nghymru - blwyddyn pedwar can mlwyddiant campwaith William Morgan yn cyfieithu'r Beibl i'r iaith Gymraeg. Mae dathlu helaeth ar y gweill, a'r BBC yn darparu ar gyfer S4C, gyfres o raglenni sydd gyda'r fenter fwyaf uchelgeisiol i adrodd yr hanes yn gyflawn yn ei gefndir.

Eisoes bu'r Dr Meredydd Evans ar drywydd hanes y Beibl mewn llawer gwlad, gan gynnwys Israel a'r Almaen, ar gyfer y gyfres.

Nid oes sicrwydd pendant sawl copi o'r Beibl Mawr sydd ar gael - fawr mwy na rhyw ddwsin o bosibl, er y deallwn fod yna ddau gopi mewn cadwraeth ddiogel na chawsant eu rhestru hyd yma. Ond mae copiau cyflawn yn eithriadol o brin.

Beth yw ei werth ariannol? Fedr neb ddweud. Ond mae copi o Destament Salesbury newydd ei restru mewn catalog yn Llundain am 15,000 o ddoleri - oddeutu £10,000. Methwyd a gwerthu'r copi hwnnw i unrhyw un yng Nghymru pan ddaeth ar werth gyntaf ac fe aeth am £3,000. Newidiodd ddwylo eilwaith cyn dod i'r farchnad yn awr.

Gwerthwyd copi o'r Beibl Bach - a werthid am goron - am oddeutu £300 yn ystod yr haf.

YN EISIAU

Unrhyw lyfrau o waith Robert Ellis, Clochydd Llanllyfni.

(i) "Lloffion Awen Llyfnwy"

(ii) "Carolau Awen Llyfnwy"

Neu unrhyw lyfr o waith y bardd hwn. Cysyllter â Dewi Jones. Ffôn: (0286) 881471.

Coelbren y Beirdd a'r Beithynen - a'r hen lolo

UN O ddyfeisiadau lolo Morganwg oedd y Beithynen ac ar y daflen uchod fe roddir yr anhygoel reswm tros ei bodolaeth. Uwchben yr arysgrif at y Beithynen ei hun gwelir tair llinell arwydd cyfrin Gorsedd y Beirdd ac ar y tair llythyren yna y sylfaenwyd gwyddor ddyfeisgar Coelbren y Beirdd.

Mae pedair ochr i'r trawsbrennau. Ar yr ochrau a welir - yn aneglur iawn yn narlun y daflen - mae llinell gyntaf englyn. O'u troi ceir y tair llinell arall. Yna llinell gyntaf yr ail englyn ar y trawsbren sydd odditano. Troi hwnnw a cheir yr englyn cyfan nes cael y saith englyn i "Heddwch".

O dan arwydd yr Orsedd ceir y teitl "Heddwch" ar bren nad oes angen ei droi. Dan ceir llinell gyntaf yr englyn gyntaf sef Heddwch i'r byd gyhoeddwn - ar wddw Eir ymlaen nes cyrraedd llinell gynta'r seithfed englyn ar y trawsbren isaf ond un, sef

Ar ol i glws berlog wliith - droi y grwn Ac ar y pren isaf un ceir enw'r awdur, sef Dyfed.

Dyma'r Brifwyl gyntaf wedi'r rhyfel - a sylwer pa mor ddwyieithog ydoedd.

WELE, ar y dde, beithynen sydd ym meddiant Mrs Gwyneth Lloyd. Fe berthynai i'r diweddar Mr John Griffith Rodgers, Llanelwy, ac fe'i rhoddwyd i Mrs Lloyd gan ei briod Mrs Marion Rodgers, sy'n dal i fyw yn Llanelwy. Yr oedd Mr Rodgers yn adroddwr adnabyddus a enillodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yr hyn a geir yma yw cywydd Goronwy Owen i'r Calan - pob un o'r deuddeg a thrigain o linellau wedi eu cerfio yng ngwyddor Coelbren y Beirdd ar y prenau sy'n troi. Gyda pheth amynedd medrir darllen yr hyn a welir yn y darlun.

Ar y pren uchaf ceir

CYWYDD I'R CALAN 1755

Ar yr isaf ceir mai *Goronwy Owen a'i cant.*

Mae'n dechrau gyda'r llinell -

Ow Hen Galan hoen gwyliau

Ac ar y pren islaw ceir y bumed llinell, oddi tano y nawfed ac ymlaen nes cyrraedd llinell olaf ond tair y cywydd cyflawn.

'Does dim o hanes y Beithynen yma ar gof a chadw.

